Stanwell School

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL STANWELL

# Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned

## Ar y cynnig i newid statws Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned.



Gellir darparu’r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.

| Cynnwys | Tudalennau |
|---|---|


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Y Cyd-destun Cenedlaethol | 3 |
| Cyd-destun Polisi Lleol | 4 |
| Heriau Presennol | 4 - 5 |
| Proffil Cymunedol | 5 |
| Asesiad o Effaith | 5 - 11 |
| Crynodeb Sgorio | 12 |
| Casgliadau | 12 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymgynghoriadau hyn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau a allai fod dan sylw neu gael eu heffeithio gan unrhyw gynnig. Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn glir, tryloyw ac yn adlewyrchu'r sawl yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 1.13 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid categori ysgol. Cynigir y bydd Ysgol Stanwell yn newid o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned fel y cyfeirir ato yn y ddogfen ymgynghori.

## 2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau'n gyntaf neu raglenni olynol.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell yn credu, gyda chymorth Cyngor Bro Morgannwg, y gallant barhau i gynnig amgylchedd dysgu ysgogol ac ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial, tra'n cyflawni eu dyletswyddau gofal ehangach o dan ddeddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru.

Byddai newid i statws ysgol a gynhelir gan y gymuned yn helpu Stanwell i weithio'n agosach gyda nifer o randdeiliaid er mwyn gwella canlyniadau addysgol, ac i hwyluso mwy o wydnwch wrth gynnal a gweithredu'r ysgol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ei ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Bydd Ysgol Stanwell a'r Cyngor yn gweithio ynghyd er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi

gwelliant mewn ysgolion. Byddai statws a gynhelir gan y gymuned yn cryfhau'r berthynas hon.

## 4. Heriau Presennol

Byddai’r cynnig i newid statws Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned yn mynd i’r afael â nifer o heriau.

- Byddai’r cynnig yn cynyddu gallu’r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

- Galluogi Cyngor Bro Morgannwg i gefnogi'r ysgol gyda phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol a rheoli prosiectau adeiladu yn fwy effeithiol.

- Galluogi'r ysgol i wella rheolaeth holistaidd yr ysgol ymhellach, trwy gymorth arbenigol ychwanegol gan Gyngor Bro Morgannwg, ac ymdrin â’r heriau sy’n ymwneud â chyllid ysgol.

- Byddai hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i'r gymuned ar gyfer lleoedd ysgol ar draws Cyngor Bro Morgannwg trwy ddilyn gweithdrefnau derbyn Cyngor Bro Morgannwg.

- Rhoi sicrwydd bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd addas i fodloni safonau Llywodraeth Cymru a hwyluso monitro rheolaidd a chynllunio buddsoddiad cyfalaf trwy arolygon cyflwr ac addasrwydd.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae Ysgol Stanwell yn ysgol sefydledig gydaddysgol gyda darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer plant rhwng un ar ddeg a deunaw oed. Mae'r ysgol yn nhref Penarth, 5 milltir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Mae 299 o leoedd ar gael fesul grŵp blwyddyn o flynyddoedd 7 i 11 gyda 6ed dosbarth ar wahân fydd yn cynyddu i 324 o leoedd o fis Medi 2024. Mae 1955 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda chyfanswm capasiti ar gyfer 1947 o ddisgyblion.

Mae Ysgol Stanwell yn Ysgol Sefydledig. Mae Ysgol Sefydledig yn ysgol a ariennir gan yr Awdurdod Lleol lle mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol wrth reoli'r ysgol nag sydd ganddynt mewn ysgolion cymunedol. Sefydlwyd ysgolion sefydledig o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i ddisodli ysgolion a gynhelir gan grant, a ariannwyd yn uniongyrchol gan y llywodraeth ganolog. Cafodd ysgolion a gynhelir gan grant a oedd wedi bod yn ysgolion gwirfoddol a reolir neu’n ysgolion a gynhelir gan y gymuned yr opsiwn i ddod yn ysgolion sefydledig.

O ganlyniad i'r cynnig, byddai'r ysgol yn newid o'i statws sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned a fyddai'n dod i rym o fis Medi 2024.

## 6. Asesiad o Effaith

Mae’r rhan hon o’r Asesiad Effaith Cymunedol yn asesu’r effaith bosibl y gallai’r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae’r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o’r sefyllfa bresennol. Mae’r asesiad o effaith yn ddogfen sy’n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y prosiect. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned, a gaiff ei gyflwyno i’r Cabinet fel rhan o’r adroddiad ar yr ymateb i’r ymgynghoriad.

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| **Cyf.** | **Mesur** |
|---|---|
| CI1 | Plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle’r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy’n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| **Sgôr Mesur** | **Asesiad Mesur** |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant Bach |
| 2 | Gwelliant Cymedrol |

| **Sgôr Mesur** | **Asesiad Mesur** |
|---|---|
| | |
| 3 | Gwelliant Mawr |

## 6. Effeithiau ar y Gymuned Leol

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 1 | Fel Ysgol Sefydledig, Ysgol Stanwell sy'n gyfrifol am eu polisïau a'u gweithdrefnau derbyn eu hunain. Mae 1955 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda chyfanswm capasiti ar gyfer 1947 o ddisgyblion.<br><br>Mae Stanwell yn gweithredu trefniant ysgolion bwydo ar gyfer mynediad i'r ysgol os bydd mwy o geisiadau na'r nifer o leoedd sydd ar gael gyda'r ysgolion cynradd bwydo dynodedig. Mae hyn yn golygu bod disgyblion sy'n byw y tu allan i Fro Morgannwg sydd wedi cael lle mewn ysgol gynradd fwydo yn cael blaenoriaeth ar gyfer lleoedd ysgol dros ddisgyblion sy'n byw yn y gymuned leol sydd heb gael lle yn un o ysgolion bwydo Stanwell. O dan bolisi'r cyngor, byddai preswylio o fewn dalgylch ysgol yn sicrhau bod plant lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'w hysgol leol. Yn y rhan fwyaf o achosion o dan drefniadau presennol ysgolion bwydo, mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo hefyd yn byw yn nalgylch ysgol Stanwell felly ni fyddai newid sylweddol i dderbyniadau i'r ysgol.<br><br>Yr ysgolion bwydo ar hyn o bryd yw Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Sili ac Ysgol Gynradd Victoria. Byddai'r newid i statws cymunedol yn golygu y byddai derbyniadau disgyblion i Stanwell yn amodol ar bolisi derbyn Bro Morgannwg a byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau. Mae digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer anghenion lleol felly ni |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | | | fyddai trosglwyddo’r cyfrifoldeb o reoli derbyniadau o Stanwell i'r cyngor yn achosi unrhyw niwed. Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau y gall holl ddisgyblion Bro Morgannwg gael mynediad i le mewn ysgol mor agos at eu cyfeiriad cartref â phosibl. Byddai'r newid hwn yn hwyluso hyn.<br><br>Mae polisi derbyn i ysgolion y cyngor yn destun adolygiad blynyddol ac ymgynghori ac felly nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.<br><br>Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei wireddu, o fis Medi 2024, byddai trefniadau derbyn yr awdurdod lleol yn berthnasol i'r ysgol o ganlyniad i newid i statws cymunedol lle mae preswylio yn y dalgylch yn flaenoriaeth uchel ar gyfer cael eich derbyn i'r ysgol. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 2 | Mae Ysgol Stanwell hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd gan gynnwys clybiau celf ar ôl ysgol, clybiau cerddoriaeth, ysgrifennu creadigol, pwyllgorau elusennol, clybiau eco ac amrywiaeth o glybiau eraill.<br><br>Mae gan newid categori y potensial i darfu ar redeg yr ysgol a neu ychwanegu cymhlethdod i ad-drefnu ysgol. Felly, dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn newidiadau lle na ellir nodi buddion a lle bo hynny'n bosibl, dylid rhoi trefniadau ar waith i liniaru unrhyw darfu lle bynnag y bo modd. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | | | Os bydd yr ysgol yn newid i statws cymunedol, y bwriad yw y bydd yr holl wasanaethau presennol i blant yn parhau i redeg yn ôl yr arfer.<br><br>Mae Stanwell yn rhentu ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ar gais y gymuned ac mae ganddynt amrywiaeth o gyfleusterau y gellid eu defnyddio gan y gymuned gan gynnwys caeau synthetig, stiwdio ddawns, awditoriwm a neuadd chwaraeon.<br><br>Byddai'r holl refeniw a gynhyrchir drwy ddefnyddio cyfleusterau cymunedol yn aros gyda'r ysgol. Gallai'r ysgol hefyd elwa o ddefnydd cydlynol o gyfleusterau (er enghraifft, rheolir cyfleusterau yn Whitmore gan y tîm Hamdden ac maent yn cynhyrchu degau o filoedd o bunnoedd y flwyddyn i dalu am gostau caeau newydd yn y dyfodol a chysylltu â chlybiau lleol a chyfleusterau chwaraeon ac ati).<br><br>Byddai'r cynnig yn arwain at weithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol ychwanegol i'r gymuned. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 2 | Mae Stanwell yn rhentu ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ar gais y gymuned ac mae ganddynt amrywiaeth o gyfleusterau y gellid eu defnyddio gan y gymuned gan gynnwys caeau synthetig, stiwdio ddawns, awditoriwm a neuadd chwaraeon. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | | | Os bydd yr ysgol yn newid i statws cymunedol, y bwriad yw y bydd yr holl wasanaethau presennol i blant yn parhau i redeg yn ôl yr arfer. Byddai'r cynnig yn arwain at weithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol ychwanegol i'r gymuned. Fel y soniwyd uchod, gallai'r ysgol elwa hefyd o ddefnydd cydlynol o gyfleusterau a digwyddiadau. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle’r ysgol | 3 | Mae Stanwell yn rhentu ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ar gais y gymuned ac mae ganddynt amrywiaeth o gyfleusterau y gellid eu defnyddio gan y gymuned gan gynnwys caeau synthetig, stiwdio ddawns, awditoriwm a neuadd chwaraeon.<br><br>Mae pob ysgol a gynhelir gan y gymuned ar draws Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu hannog i gynnig defnydd cymunedol, yn benodol yr ysgolion hynny sydd wedi ffurfio rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol i wella'r cyfleusterau sydd ar gael.<br><br>Byddai newid statws ysgol a gynhelir gan y gymuned yn rhoi gwell cyfleoedd i rieni a'r cymunedau lleol gymryd rhan, gan greu cysylltiad cymunedol agosach drwy'r ysgol. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol neu’n eu cefnogi. Felly, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw fusnesau lleol. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | | | |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 2 | Ar hyn o bryd mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli gan y corff llywodraethu heb oruchwyliaeth gan Gyngor Bro Morgannwg. Pe bai'r cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, byddai Ysgol Stanwell yn elwa ar gymorth ychwanegol ar reoli'r gyllideb gan Gyngor Bro Morgannwg.<br><br>Nid yw'r ysgol yn agos at unrhyw brif fusnesau neu ardaloedd siopa. Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol neu'n eu cefnogi. Felly, ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar gyflogaeth leol. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 3 | Gan fod yr ysgol yn ysgol sefydledig ar hyn o bryd, cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw cynnal arolygon cyflwr ac addasrwydd i sefydlu ei chyflwr. Fodd bynnag, pe bai'r ysgol yn newid i fod yn ysgol gymunedol, byddai Bro Morgannwg yn cynnal arolwg cyflwr ac addasrwydd llawn.<br><br>Mae'r arolygon cyflwr ac addasrwydd yn llywio penderfyniadau adnewyddu asedau a gwariant cyfalaf ar gyfer holl asedau'r Cyngor ac mae'n un o brif ysgogwyr y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.<br><br>Byddai'r cynnig i newid yr ysgol i ysgol bro yn cael effaith gadarnhaol ar seilwaith lleol gan y byddai Bro Morgannwg yn gallu nodi cyflwr presennol yr ysgol er mwyn galluogi newidiadau pe bai angen. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | | | Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd gofal i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau addysg addas ac nad yw'r seilwaith lleol yn broblem. Mae seilwaith hefyd yn ymestyn i safonau digidol addysgol er enghraifft, y mae awdurdodau lleol yn eu rheoli ar ran ysgolion fel gofyniad ariannu |
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth | 0 | Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. "Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Ysgolion Uwchradd.<br>Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."<br>Byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Stanwell ar y dyddiad trosglwyddo i'r statws newydd sy'n byw mwy na 3 milltir o safle'r ysgol yn parhau i fod â hawl i drafnidiaeth ysgol am ddim yn amodol ar unrhyw newidiadau i'r polisi sydd ar waith ar gyfer pob ysgol.<br><br>Ni fydd canlyniad y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau trafnidiaeth. |

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 1 |
| CI2 | 2 |
| CI3 | 2 |
| CI4 | 3 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 2 |
| CI7 | 3 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr Gyfartalog | 1.63 |

## 8. Casgliadau

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Os bydd yr ysgol yn newid i statws cymunedol, y bwriad yw y bydd yr holl wasanaethau presennol i blant yn parhau i redeg yn ôl yr arfer. Byddai'r cynnig yn arwain at weithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol ychwanegol i'r gymuned.

Byddai ysgol a gynhelir gan y gymuned yn darparu gwell cyfleoedd i rieni a'r cymunedau lleol gymryd rhan, gan greu cysylltiad cymunedol agosach drwy'r ysgol.

Mae Stanwell wedi cofrestru yn ddiweddar i wasanaethau cyflogres a chymorth ariannol Bro Morgannwg. Mae'r newid hwn o ganlyniad i Stanwell yn mabwysiadu'r cytundeb lefel gwasanaeth a gynigir, yn hytrach nag o ganlyniad i unrhyw newid arfaethedig mewn categoreiddio.

Byddai'r cynnig yn ehangu mynediad y gymuned at gyfleusterau a chyfleoedd i ryngweithio drwy alluogi'r gymuned i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol, a bydd hefyd yn diwallu anghenion yr ysgolion ei hun.

Byddai'r cynnig i newid yr ysgol i ysgol bro yn cael effaith gadarnhaol ar seilwaith lleol gan y byddai Bro Morgannwg yn gallu nodi cyflwr presennol yr ysgol er mwyn galluogi newidiadau pe bai angen.

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd gofal i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau addysg addas ac nad yw'r seilwaith lleol yn broblem.

Daethpwyd i'r casgliad o'r Asesiad Effaith ar y Gymuned y byddai'r cynnig i newid statws ysgol Stanwell o sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned yn rhoi mwy o fanteision nag anfanteision i'r gymuned.